



Pob Pennaeth Cynllunio  
Awdurdodau Cynllunio Lleol

28 Gorffennaf 2021

Annwyl Gyfeillion

## **CORONAFEIRWS/COVID-19 – DIWEDDARIAD AR LACIO GORFODI'R AMODAU MEWN PERTHYNAS Â DOSBARTHU NWDYDDAU YN Y SECTOR MANWERTHU**

Ar 13 Mawrth 2020, ysgrifennais atoch ynglŷn â'r angen i fod yn ymwybodol o'r pwysau ar y gadwyn cyflenwi bwyd, o ganlyniad i'r heriau eithriadol sy'n wynebu Cymru o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chynrychiolwyr y diwydiant bwyd i sicrhau bod archfarchnadoedd a manwerthwyr bwyd eraill yn gallu cynnal cadwyni cyflenwi. Yn ystod y trafodaethau hyn daeth i'r amlwg bod pwysau parhaus o hyd o ran argaeledd gyrwyr, yn bennaf o ganlyniad i ymadael â'r UE, gyda llawer o yrwyr Ewropeaidd yn penderfynu peidio â gweithio yn y DU mwyach. Mae perygl y bydd dychwelyd at orfodi amodau cynllunio – sy'n cyfyngu ar amseroedd dosbarthu – yn llym yn arwain at darfu ar gadwyni cyflenwi bwyd. Felly, ar yr adeg hon dylai'r hyblygrwydd y mae awdurdodau cynllunio lleol wedi'i roi i fanwerthwyr a dosbarthwyr bwyd barhau, gan eu galluogi i dderbyn danfoniadau drwy gydol y dydd a'r nos. Bydd y sefyllfa hon yn parhau i gael ei hadolygu'n rheolaidd a gellir tynnu'r canllawiau hyn yn ôl os bydd nifer y gyrwyr yn sefydlogi.

Lle mae effeithiau andwyol sylweddol ar breswylwyr ar safleoedd unigol o ganlyniad i oriau dosbarthu estynedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol drafod â'r busnes i gytuno ar fesurau lliniaru. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cadw'r hawl i orfodi amodau lle na all mesurau lliniaru leihau effeithiau andwyol ar breswylwyr ac lle mae'r lefelau aflonyddwch gryn dipyn yn uwch nag y maent fel arfer o dan y system gynllunio.

O ran oriau agor siopau bwyd, oherwydd rhaglen frechu lwyddiannus Cymru, mae'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, ac effeithiau canlyniadol coronafeirws, wedi lleihau'n sylweddol. O ganlyniad, nid yw manwerthwyr bwyd o dan bwysau mwyach i amrywio oriau agor er mwyn lleihau cyfnodau prysur. Felly, disgwyliaf i'r siopau hynny sydd wedi ymestyn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eu horiau agor ddychwelyd i'r amseroedd a nodir yn amodau cynllunio'r safle erbyn 1 Medi 2021. Lle mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwybodol bod manwerthwyr wedi bod yn gweithredu oriau agor estynedig, dylent ysgrifennu atynt i'w hysbysu y gellir gorfodi amodau o 1 Medi.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Julie James AS**  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd